"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1884. [RHIF 38.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Arfau ein Milwriaeth ni	217
Eglwys y Dyfodol	220
Amser	224
Y Parousia yn yr Epistolau	225
John Wicliffe	228
Cwdyn y Saint	233
Ein Hysgolion Sul	236
Capel y Graig Llandyssul	237
Manion	239
Marwgofion	239

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1884. [RHIF 38.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

ARFAU EIN MILWRIAETH NI.

PREGETH GAN Y DIWEDDAR BARCH. W. THOMAS, M.A., (GWILYM MARLES).

"*Canys arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gwnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr.*"—2 Cor. x. 4.

NID oes neb a faidd wadu fod y byd yn mhellach yn mlaen yn awr nag y bu erioed; fod yr hiliogaeth ddynol yn sefyll ar uwch tir, a'i chymmeryd gyda'i gilydd, heddyw nag y bu mewn un oes o'r byd. Gwir fod rhai cenedloedd yn myned yn ol, yn suddo i fethiant a dinodedd, tra mae ereill, cenedloedd ieuainc mewn cymhariaeth, yn nesu yn mlaen i gymmeryd eu lle, ac hyd y nod i ddiwygio ar eu pethau goreu hwy. Ond a thaflu golwg ëang a chyffredinol, a chymharu amserau ag amserau, gyrir ni yn anocheladwy i'r casgliad mai rhagddi o hyd mae'r hiliogaeth ddynol yn cychwyn—nid mewn llinell uniawn bob amser mwy nâ'r afon—ond rhagddi yn y pen draw er hyny. Ni a gymmerwn yn ganiataol fel ffaith sicr, ynte, mai gwella mae'r byd o oes i oes, gan fyned rhagddo at fuddugoliaethau newyddion, a'i fod heddyw mewn cyflwr rhagorach nag y gwelodd patriarch na phroffwyd, apostol na merthyr ef yn eu dydd hwy.

Ymofyniad naturiol yw, trwy ba foddion y mae'r diwygiadau y cyfeiriwn atynt yn cael eu dwyn i ben; ac yr ydym mewn sefyllfa i ateb, ar sail digon o brofion credadwy, mai trwy offerynoliaeth dynion, yn ymdrechu, yn ymgyssegru i'w gwaith, ac yn dyoddef llawer; mai nid ar unwaith yr effeithir un cyfnewidiad pwysig, mai nid gyda chydsyniad cyffredinol, ond yn raddol iawn, yn ngwyneb rhwystrau fyrdd, trwy chwys a gwaed Iachawdwyr yr hiliogaeth, a'r cyfryw a ymrestrant o

dan eu banerau. Yn gyffredin araf a mân yw'r camrau a roddir yn mlaen at bethau gwell. Hi gymmer fagad o oesau cyn gosod i fyny olwg gywirach yn lle'r cyfeiliornad a fu yn hir yn cadw'r orsedd. Cyn cymmeryd rhyw hen gastell cadarn o gred ddall neu dyb ffol, rhaid cario'r gwarchae yn mlaen am amser hir, a chyda llawer o golledion mewn bywydau a meddiannau. Ni roddwyd i ni i ddirnad yn hollol y drefn ddoeth sydd yn llywodraethu yr achosion yn y byd. Mae yn naturiol i ni feddwl y rhaid i gynnydd yr hiliogaeth fod mewn llawer o bethau yn debyg i gynnydd pob dyn ar ei ben ei hun; na chaiff yr hiliogaeth mwy nâ'r dyn personol ei geni yn llawn faint, ond y rhaid iddi dripian a chwympo cyn dysgu cerdded yn ddilithro. A chyn y caiff unrhyw wirionedd dderbyniad cyffredinol, bydd llawer o waith parotoi'r byd ar ei gyfer; llawer o waith braenaru meddyliau dynion cyn taflu'r hâd i lawr, ac wedi'r cwbl ceir llawer gelyn-ddyn yn hau efrau yn mhlith y gwenith, ac yn ceisio cadw agwedd y byd mor agos ag y byddo'n bossibl at yr hyn oedd wedi arfer bod. Mae cyflawnder yr amser i bob diwygiad i wneyd ei ymddangosiad.

Yr hyn sydd yn wir am bob gwirionedd yn mhob oes a gwlad, sydd yn wir hefyd am Gristionogaeth ei hun, yr hon a gynnwys y gwirionedd crefyddol uwchaf a gyhoeddwyd i'r byd erioed. O'r pryd y rhodiai'r Iesu ar y ddaear, a'i feddwl clir yn canfod, a'i galon fyw yn teimlo'r gwirionedd, yr oedd angenrhaid wedi ei osod arno i'w gyhoeddi, yr hwn oedd y nef yn agored iddo, perthynas agos dyn â'r Goruchaf yn beth sylweddol iddo, ac angelion Duw yn esgyn ac yn disgyn arno—cymmundeb rhydd rhwng ei enaid a Thad yr ysprydoedd—o'r pryd hwnw i lawr trwy yr oes apostolaidd, ac yn fwy neu lai yn mhob oes oddiar hyny hyd yn awr, mae yr ymdrech wedi bod yn galed—yn fynych hyd at waed yn erbyn y pechod oedd yn gwrthdaro llwyddiant y gwirionedd ar y pryd. Mae yr apostol yn y testyn yn cyfeirio at amgylchiadau ei fywyd ymroddgar ei hun a'i gydlafurwyr. Tystia mai nid arfau cnawdol, sef arfau gweiniaid, dinerth—mewn gwirionedd felly, er yn gryfion ac yn nerthol yn ngolwg y byd—yr arfau a ddefnyddid y pryd hwnw ac a ddefnyddir etto, i wrth-weithio ac i atal rhyddrediad y gwirionedd mewn llawer dull—mai nid arfau cnawdol felly oedd yr eiddo ef, ond nerthol trwy Dduw, arfau â nerth Duw yn rhinwedd arosol ynddynt, ac yn allu i orchfygu. Yn y gwirionedd crefyddol a ddysgai yr oedd nerth yr apostol; awdurdod y gwirionedd hwn oedd yr awdurdod a feddai. Nis gallai ddim yn erbyn y gwirionedd, ond pob peth dros y gwirionedd. Nerth gwybodaeth, rhinwedd, a duwioldeb oedd y nerth hwn—nerth yn tarddu oddiar gydrediad a chydgordiad y bywyd â deddfau tragwyddol gwirionedd, uniondeb, cyflawnder, purdeb, trugaredd, cariad. Galwaf ef yn *nerth moesol*, cymmeraf yr ymadrodd "arfau cnawdol" fel yn gyfystyr â phob nerth treisiol neu anifeilaidd yn y gwahanol ffurfiau a wisga, a cheisiaf sylwi *fod nerth moesol yn drech nâ nerth anifeilaidd*, yn ddigon trech yn y pen draw. Gall nerth anifeilaidd wneyd llawer o niwed, achosi llawer o rwystrau, ac ennill yr hyn a ddichon ymddangos yn oruchafiaeth, ond ei orthrechu a gaiff yn y diwedd. Edrychwn am funyd ar yr arfau

cnawdol. (1) *Merthyrdod a Rhyfel.* Yn y cyffredin pan doro gwirionedd newydd ar ryw feddwl, ac y daw'r dyn yn enau cyhoeddus i'r byd o'r cyfryw wirionedd, fe geisir ei lethu trwy nerth anifeilaidd, trwy anelu at fywyd y sawl sydd yn ei draethu. Ond cau y genau yna, ond atal curiadau y galon yna, ond gwneyd y cnawd a wisga'r meddwl galluog yna yn lludw, tybir y bydd diwedd ar y gwirionedd—y derfydd am y meddwl fel y derfydd am y corff. Ardderchog lu y merthyri, cof-golofnau galarus ydynt o waith arfau cnawdol anwybodaeth, rhagfarn, malais, a chenfigen, yn rhuthro ar y gwirionedd gyda'r amcan i'w ddifodi. Yr holl waed cyfiawn a dywalltwyd o Abel hyd waed Zecharias fab Barachias, yr hwn a laddwyd rhwng y deml a'r allor, a'r holl waed cyfiawn a ollyngwyd oddiar hyny hyd yn awr ar groesau, wrth allorau, ar arteithglwydi, trwy gynllwynion; yr holl losg-aberthau o gnawd dynol a fu yn fflamio wrth ystanciau—arfau cnawdol oedd yn cael eu rhoddi ar waith er ceisio dystewi llais croew y gwirionedd. Y fath wledd i gleddyfau, y fath dânwydd i ffagodau yw cyrff gwasgedig hereticiaid wedi bod! Nid oedd tori ar wanc yr arfau cnawdol, ond fel y gele ben-agored llefent o hyd "Moes, moes." Chwi a gofiwch am Paul, y penaf o'r holl apostolion, yr helaethaf ei ddysgeidiaeth, y mwyaf calon-wresog, y mwyaf diymatal yn ei lafur, ei offrymu a gafodd ef yn y diwedd yn aberth i'r arfau cnawdol. Y rhan fwyaf o'i gyd apostolion hefyd, ac i lawr trwy'r canrifoedd hyd at John Huss yn Bohemia, Savonarola yn Itali, Servetus yn Geneva, Latimer a Ridley, Biddle a Legate, ac esgob Ferrar yn Nghaerfyrddin, a John Penry, y gwron o Frycheiniog, a miloedd ereill nad yw eu henwau ar un lechres ddynol, ond oll i lawr yn llyfr coffadwriaeth Duw, y rhai hyn oll nad oedd y byd yn deilwng o honynt a gawsant brofi i'r eithaf yr hyn allai y nerth anifeilaidd oedd wrth law wneyd yn eu herbyn. Ac uwchlaw iddynt oll, yn dderchafedig ar yr arw groes, oni welwn ni dywysog ein Iachawdwriaeth yn gogwyddo ei ben gan ddywedyd, "Gorphenwyd," a'i elynion yn meddwl fod ei haul wedi machludo i beidio codi byth mwy?

Mewn rhyfeloedd drachefn, pa mor fynych mae'r cledd wedi ei ddiweinio i orthrechu a darostwng y blaid wanaf mewn arfau cnawdol gan y blaid gryfaf? Mae llawer o ryfeloedd, mae'n wir, am y rhai nis gellir dweyd fod cyfiawnder a gwirionedd yn cael eu hamddiffyn gan y naill blaid nâ'r llall, rhyw gwerylon bychain, rhyw nwyd, rhyw wŷn aflywodraethus wedi arwain iddynt; dim ond rhyw rith o esgus, rhyw gyffroad (*provocation*) bychan iawn, yn fath o liw dros aberthu miloedd o fodau dynol. Ond am ereill, mae cwestiwn y rhyfel yn fwy amlwg, gwanc am fuddugoliaeth, am ledaenu preswylfeydd pebyll caethiwed, neu o leiaf ddyogelu am ychydig yn hwy ryw fanteision personol o elw yn nglyn ag arferion gorthrymus,—nerth anifeilaidd ar un llaw am orthrechu galluoedd gweiniaid a fyddont yn cynnrychioli nerth moesol o ryw fath ar y llaw arall. Yn y rhyfel trychinebus presenol rhwng ein brodyr tuhwnt i'r môr,* gofidus yw gorfod dweyd,

* Y Rhyfel Americanaidd. Ysgrifenwyd y bregeth Gorphenaf, 1864.—W.J.

mai'r arfau cnawdol ymddengys â'r llaw flaenaf ar y ddwy ochr. O leiaf ar y dechreu, pan gychwynodd y byddinoedd gyntaf allan i'r maes, gellid dweyd nad oedd y naill ochr nâ'r llall—y Gogledd yn fwy nâ'r Deheu—yn ymwybodol eu bod yn myned i ryfela am unrhyw egwyddor o gyfiawnder a thegwch. Oddiar hyny mae y cwestiwn o gaethiwed wedi codi i'r golwg, ac wedi mynu sylw ar ol hir guro wrth y drws. A thra y gwna y Deheu gyffes gyhoeddus, mai ei hamcan yw gosod caeth-wasanaeth yn gonglfaen i'w gwladwriaeth, ac yr ymddengys y Gogledd fel yn agor ei llygaid yn fwy i'r angenrheidrwydd iddynt lanhau eu cydwybodau ar y mater hwn, mae yn dyfod yn fwy tebygol y bydd hanes yn y dyfodol yn cydnabod mai nerth anifeilaidd yn ceisio dal ei dir yn erbyn nerth moesol oedd un o brif nodweddion y rhyfel hwn. Nerth anifeilaidd o leiaf yn ei holl greulondeb yw'r nerth a gais sefydlu gwladwriaeth ar sylfaen o gaethiwed, ac adeiladu ei lys ar yddfau miloedd a rhai miliynau o frodyr a chwiorydd dynol.

(*I'w barhau*).

EGLWYS Y DYFODOL.

Parhad o tudalen 201.

Pa beth yw ein rhagolygon fel Eglwys i gyflawnu ein rhan yn y cyfeiriad hwn? Darfu i rai o'n cyndeidiau aberthu cyflogau uchel, a sefyllfaoedd dylanwadol yn yr Eglwys Sefydledig, a myned allan ar gais cydwybod o'r porfeldir brasderog i wynebu gwg a gwawd y byd a byw neu farw fel y gallont, ar anialdir cerrigog a diffaeth annghydffurfiaeth a heresi. Ond erbyn heddyw, y mae rhai o'n blaenoriaid a'n dynion mwyaf dysgedig am ein harwain yn ol i gaethiwed Babilonaidd yr Eglwys Wladol. Proffwydant mai nid addawol iawn ydyw dyfodol ein heglwys rydd:

> "Erbyn heddyw chwytha drosom groes awelon gauaf du,
> Tywyll odiaeth yw y wybren—ffoi wnaeth seren gobaith gu."

Barnant nad yw yn werth i ni bellach fod yn rhyw gorlan fechan yn nghanol yr anialwch, a sefyll yn ein hunigedd yn dystion i gydwybod, i'r gwirionedd ac i Dduw, ac mai gwell fyddai i ni ddychwelyd dan yr iau gyntefig ac ymuno mewn Eglwys Sefydledig cyd-waddoledig, yn cynnwys pob math o gredinwyr, a'r gwaddoliadau yn cael eu mwynhau gan yr Ymneilldwyr yn gystal â'r Eglwyswr. Y mae yn rhyfygus braidd i un fel myfi i feiddio amheu a gwrthwynebu un mor brofiadol a dysgedig a'r Parchedig Ddr. Vance Smith, o Gaerfyrddin, ac oni bai egwyddor sylfaenol ein ffydd, "Rhydd i bob meddwl ei farn, a phob barn ei llafar," ni feiddiwn wrthddadlu sylw a wnawd ganddo mewn erthygl a ymddangosodd yn y "Modern Review," am Ionawr, 1882, yn yr hwn y cais brofi fod yn rhaid i ni wrth Eglwys Wladol. Os nad wyf yn ei gamddeall ei reswm dros y cyfnewidiad hwn yw, y

"prinder yn ffrwythau y *cynllun gwirfoddol* mewn llawer o achosion, y taliadau truenus fychain y gorfodir gweinidogion yn awr i fyw arnynt, a'r anhawsder i ffurfio cronfeydd (funds) i dalu treuliau angenrheidiol." "Barnaf fi," meddai efe, "mai camsyniad anferth fydd gadael cynnaliaeth crefydd yn y wlad yn hollol ar ewyllys da neu sêl anwadal cyfranwyr gwirfoddol."

'Dyw hynyna,fel y deallaf fi ef, gydag ychydig wahaniaeth, ond barn y diweddar Ddr. Chalmers, na all crefydd fyw heb gael cynorthwy gwladol yn y ffurf o ddegwm. Ymddengys i mi, os oes Eglwys i fod a fydd yn wir dŷ'r Arglwydd, lle y trig yn nghyd, yn rhwymyn heddwch, holl lwythau cred a llawer ereill, y rhaid iddi fod yn un hollol rydd oddiwrth ymyraeth y llywodraeth. Y mae'r drychfeddwl y rhaid i ni wylied yr Eglwys fel gwersyll amgaeredig, a chodi amddiffynfeydd o'i hamgylch, yn dyfod o hyd yn fwy-fwy afresymol a ffol, am nad yw'n debyg y ceir fyth Eglwys ddigon ëang i gynnwys pob credo. Y mae undeb ffydd, pa mor gyffredinol bynag ar unrhyw bwnc damcaniaethol (*speculative*) fel ysprydoliaeth y Beibl, anfoniad yr Iesu, cymmeriad Duw, a sylweddolrwydd Rhagluniaeth, yn annichonadwy yn sefyllfa bresenol pethau; a gyrir fi i'r casgliad na all Eglwys Sefydledig a pherffaith ryddid crefyddol gyd-fodoli.

Oddiwrth erthygl Dr. Vance Smith, casglaf yn mhellach na wnawn ni bobl y dyddiau hyn nâ phobl oesau a ddaw ddigon o aberth gwirfoddol i gynnal crefydd yn weddaidd, ac am hyny y bydd yn rhaid i ni ofyn i'r llywodraeth i ddefnyddio mesurau gorfodol i gyrhaedd yr amcan hwn, neu ymddybynu ar gyfraniadau hen dadau a mamau duwiol sydd wedi dianc hwnt i'r llen—cyfraniadaua roddwyd ganddynt o ewyllys da, neu a wasgwyd oddiwrthynt yn awr angeu trwy fygythion a dychryniadau offeiriaid. Crefydd gyssurus hon yn wir! Ai nid gwell i grefydd farw os nad all gynnal ei hun? Ai gwir fod ofergoeledd ac ofn llid Duw, ac ofn poenau uffern yn fwy tueddol i gynnyrchu gwroldeb a hunan-aberth moesol nag yw gwybodaeth, deall, ac efengyl cariad Duw? Os felly, er mwyn pob dynoliaeth, dychweled yr oesau tywyllion, a boed y mynach etto yn ben! Beth am fywyd yr Iesu, yr ymgwnawdoliad perffeithiaf hwnw o hunan-aberth? beth am dano Ef oedd "yn marw beunydd," yr hwn nid oedd na "gorthrymder nac ing nac ymlid na newyn, na noethni nac enbydrwydd, na chleddyf nac einioes, nac angeu a'i gwahanai oddiwrth gariad Duw;" beth am ardderchog lu y merthyri a offrymasant eu hunain a'r hyn oll a feddent dros Dduw a Christ? Sut y bu Cristionogaeth fyw ac y trechodd ddylanwadau gwrthwynebol yn nhair canrif cyntaf ei hanes oddieithr trwy roddion *gwirfoddol* ei chofleidwyr? Y mae duwinyddiaeth a phob sefydliad cyssylltiedig â chrefydd yn parhau i dderbyn mwy-fwy o gefnogaeth o flwyddyn i flwyddyn yn yr America, lle nad oes yr un 'Stad Eglwys. Ac yn sicr, nid oes eisieu i'r Doctor dysgedig ond troi ei olygon, a gwel ar unwaith brawf sylweddol o allu'r cynllun gwirfoddol yn yr addoldai gwyngalchog dirif sy'n britho bryniau a dyffrynoedd fy hoff wlad enedigol. Nid yw y rhai'n, feallai, wedi eu cyssegru trwy seremoniau dynol a thrwy weddiau dros wefusau esgob, ond er hyny,

hwy ydynt demlau wedi eu cyssegru dair gwaith drosodd yn ngolwg Duw trwy ddwysion och'neidiau a hiraethion anfarwol eu mynychwyr. Nid yw'r temlau hyn ond ffrwyth offrymau gwirfoddol meibion a merched llafurus ac ewyllysgar Cymru. Nid wyf, gan hyny, yn gwan obeithio am y dyfodol. Ni chredaf gyda'r Barnwr Stephen, yr argyhoeddir fy nghydwladwyr fy hun nâ'i gydwladwyr yntau ychwaith, "mai dyn *respectable* y byd, y Cristion mewn enw, claiar, yr hwn sy'n dygwydd credu cymmaint o'i gredo ag a fo'n ateb ei bwrpas ac yn arwain bywyd esmwyth, a dry allan yn iawn, a chofleidwyr brwdfrydig y gwahanol gredoau yn gamsyniol." Ni choeliaf hefyd "na fydd eisieu crefydd ar y byd ac y gall fyn'd yn mlaen hebddi," am yr ystyriaf fod crefydd yn elfen fywiol ac anniflanedig y natur ddynol, ac na ddaw'r amser byth pan na fydd Duw a'r enaid dynol yn alluog i gwrdd y naill mewn cymmundeb per a sanctaidd. Pa bryd bynag, a pha le bynag y cymmer crefydd afael ar ddyn, efe a lafuria drosti, a abertha drosti, a ddyoddefa drosti, ië, bydd farw drosti, a hyny yn llawen ac nid yn drist. Os yw athrawiaeth dadblygiad a chynnydd graddol dyn yn wir, edrychaf yn hyderus i'r dyfodol gan deimlo'n sicr na phaid llinach y proffwydi, ac y bydd i saint Duw yn y dyfodol fel yn y gorphenol, ddeffroi yr enaid i hwyliau nefolaidd ac i ymofyniad taerach am y gwirionedd na dim ydym wedi ei brofi etto. Nid wyf fi na phroffwyd nâ mab i broffwyd, ac nis gallaf ragfynegi na "gwel'd gweledigaeth y byd â'r rhyfeddodau a fydd;" ond yn gymmaint ag nad yw Duw erioed wedi gadael dyn heb dyst o hono ei hun yn yr amser a aeth heibio, gwelaf, gyda llygad ffydd, y bydd i addolwyr Eglwys y Dyfodol yr ydym ni heddyw, gobeithio, i ryw fesur yn gosod i lawr ei sylfaen ysprydol, yn ol fel "y llwyddo'r Arglwydd hwynt," gyfranu o'u pethau bydol yn llawen ac o'u bodd i'w chynnal yn effeithiol. Bydd ei thrysorfa bob amser yn llawn; cynnelir hi, nid gan dreth wedi ei gwasgu oddiar ddynion trwy drais, nid gan arian wedi eu pleidebu gan Senedd, ond yn unig ac yn hollol gan gariad a chydwybod, gan ddiolchgarwch y sawl a gydnabyddant les ei haddysgiadau, a chan y teimlad o ddyledswydd ac ymroddiad y dylai ymdrechion pob gwir Eglwys gael eu cyfeirio i'w ddeffroi a'i feithrin. Fel y treigla'r oesau yn mlaen ac y daw dynoliaeth yn fwy puredig "yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith" fel y mae y "Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith," trwy sêl ac ymroddiad ei haelodau, a'u cyfoeth cynnyddol, a'u hoffrwm siriol i'r Arglwydd ac i wasanaeth dyn troir yr addoldai gwyngalchog hyn yn demlau o brydferthwch annghydmarol na welodd llygad, gyda'u "huchelion dyrau a'u gwasanaeth addurnedig," lle mae'r "organ gyda'r eurgor yn dyrchafu'r ddwyfol gân." Ni chlywodd clust eu peroriaeth nefol, canys melusach yw na melus nodau'r Sireniaid, a'u cyd-gord sydd ddwyfolach nâ cherddoriaeth y planedau. Hon fydd yn wir yn Eglwys Dduw, yn Eglwys Dynoliaeth, yn Eglwys Rydd plant rhyddion Duw, pawb o'u mewn yn mwynhau y "rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist ni."

Nis gwn dan ba enw y gelwir Eglwys y Dyfodol, ac nid wyf yn meddwl y bydd llawer o bwys chwaith pa enw a roddir arni. Feallai

mai nid Undodiaeth fydd, nid Cristionogaeth feallai, ond credaf mai Eglwys y Duw byw fydd, ac mae yspryd yr Iesu fydd ei gallu ysgogol. Ac mor bell ag mae yspryd Crist yn ffynu yn ein plith fel Eglwys mewn egwyddor ac ymarferiad, y mae ein henwad ni heddyw yn cynnrychioli Eglwys y Dyfodol. *Yspryd* Crist, cofier, nid ei *enw*, oblegyd, mae ei enw credaf ar wefusau llawer nad adwaenai Ef, ac y mae ei yspryd yn rheoli bywydau cannoedd a wadant ei enw, a miloedd ar filoedd na chlywsant son am dano erioed. Ni fydd ynddi ymraniadau yn nghylch pa un a oedd Paul a Phedr ac Ioan yn Drindodiaid neu Undodiaid o ran eu credo, ac ni fydd ysgymuno am nad yw y wyrth hon yn gredadwy neu broffwydoliaeth arall heb ei chyflawnu. Ni welir ynddi beth mor annaturiol a chlywed mab i Undodwr gyda phob difrifoldeb o flaen Duw a dynion yn condemnio ei rieni a'i geraint, ac yn cyhoeddi "Pwy bynag a fyno fod yn gadwedig, o flaen dim rhaid iddo gynnal y ffydd Gatholig, yr hon ffydd onis ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog, diamheu y collir ef yn dragywydd." Dychymygaf fi mai'r unig un a ystyrir yn annghredadyn yn hon fydd yr hwn a gauo ei lygaid yn wirfoddol yn erbyn goleuni y gwirionedd er mwyn elw bydol, a fyddo'n anufudd i'r gweledigaethau nefol a ddatguddir i'w enaid; yr hwn a wado ei reswm ac a fyddo yn anonest i'w gydwybod. Nid *ffydd* yn gymmaint a *ffyddlondeb* fydd ei harwyddair. Pawb a fyddo yn dylyn yn ol ei oleuni ei ysprydoliaeth uwchaf, i dreiddio i mewn i ddyfnderoedd y ddaear, neu esgyn i'r nef a dwyn i lawr ddirgelwch y sêr a'r planedau, neu gerflunio mewn marmor byw brydferthwch agwedd ddwyfol dyn, neu ddosparthu (*classify*) deddfau y cyfansoddiad dynol--corfforol a meddyliol--sydd wedi ei wneyd mor rhyfedd ac ofnadwy neu olrhain gweithrediadau a serchiadau'r galon neu ddyheuadau yr enaid am berffeithrwydd—cânt oll eu gwahodd i daflu eu cyfran i adeiladu'r deml ardderchog hon fel bendigedigion blant y Tad. Pawb fo'n ceisio'r gwirionedd yn onest ac yn ddifrifol yn ymestyn am gyfiawnder, ac yn caru Duw a dyn a ymgasglant o'r Dwyrain a'r Gorllewin, o'r Gogledd a'r De, o bob llwyth, iaith, a chenedl dan y nef, ac a ymgrymant yn nghyd, ac a addolant mewn yspryd a gwirionedd Un Duw a Thad oll, a bydd un gorlan ac un bugail, pawb yn ol ei gallu yn ymdrechu i hyrwyddo teyrnas Dduw, lle y bydd i dangnefedd ac ewyllys da doi'r ddaear megys y "toa'r dyfroedd y moroedd," ac fe una Nef a daear mewn un anthem ogoneddus—Haleliwia, canys yr Arglwydd Dduw Hollalluog a deyrnasa.

Felly fy nghred; ond beth wyf fi
Baban yn crio yn y nos,
Yn crio am y wawrddydd dlos,
Heb un iaith genyf onid cri.

My clearest way is that which faith hath shown,
Not that in which by sight I daily move;
And the most precious thing my soul hath known
Is that which passeth knowledge—God's dear love.

Phœbe Cary.

AMSER.

Beth yw amser? mesuriedydd
Cylch droadau'r bellen gron;
Ysgogiadau'r bywyd beunydd,
Oll derfynant dan ei fron:
Beth yw amser? un heb ddechreu—
Nid oes diwedd iddo'n bod,
Wrth ei waith y cyfnod boreu
Cyn i Dduw roi Adda i fod.

Beth yw amser? oriawr 'splenydd,
Sydd yn tician yn ddi daw;
Yn ei gylch y tyr y wawrddydd,
Ffy y gwyll i'r gorwel draw;
Ynddo rhanwyd y tymhorau—
Dydd a nos—a thrai y môr,
Haul a lloer a'r holl blanedau
Blygant iddo'n nawdd ein Iôr.

Beth yw amser? hylif oesau
Dynolryw i wlad yr hedd;
Cerfiwyd ganddo farwolaethau
Gwreng a bonedd sy'n y bedd;
Ynddo mae blynyddau'n esgor,
Einioes dyn sydd ar ei daith,
Ffwrdd fe'i cluda ar ei elor
Draw i'r tragwyddoldeb maith.

Beth yw amser? cylch hanfodol
Sy'n mhreswylfod Duw ei hun;
Cyn creu dae'r nâ'r nef wybrenol,
A chyn llunio anian gun:
Digyfnewid o'r dechreuad
Heddyw, ddoe, yr un o hyd;
Ni wnaiff aros hanner eiliad,
Brysia i'r tragwyddol fyd.

Trebannos. H. Morgan.

I quite mistook my road,
Born in an age more curious than devout;
More fond to fix the place of heaven or hell
Than studious this to shun or that secure.—*Dr. E. Young.*

Y PAROUSIA YN YR EPISTOLAU.

Syr:—

Er y cymmerai yr Efengylau a llyfr yr Actau amryw erthyglau yn rhagor i wneuthur rhywbeth yn debyg i gyfiawnder â'r pwnc hwn, rhaid i mi frysio yn mlaen at yr Epistolau. Eu prif destyn hwythau hefyd yw y parousia, neu ddyfodiad a phresenoldeb yr Arglwydd Iesu yn ei deyrnas ddyfodol ar y ddaear gyda'i saint, y rhan fwyaf o honynt hyd yn hyn yn gorwedd yn y llwch. Yn ei ddyfodiad efe a'u hadgyfyd i fywyd ac a'u anrhega ag anfarwoldeb, a rhan yn ei deyrnas, yr hon a ddilea ac a lynca i fyny holl bendefigaethau ac awdurdodau y cenedloedd. Yna y canlyn yr adgyfodiad cyffredinol, sef adgyfodiad pawb ag ydynt gyfrifol i Dduw am y goleuni nefol mae wedi roddi i ni. Y sawl a fuont ffyddlon i'r goleuni a ddeuant i adgyfodiad bywyd, ond y sawl a esgeulusasant wneuthur iawn ddefnydd o hono, i adgyfodiad barn neu gosp. Y gosp fydd dyddymiad. Nid oes gan Dduw anfarwoldeb—priodoledd ei natur ei hun—i roddi i'r sawl ni feddant anian y Duwdod. Cyflog pechod yw marwolaeth, nid marwolaeth foesol, fel y dychymmyga y duwinyddion, ond y marwolaeth ag sydd gynnwysedig mewn darfod byw. Bydd angeu weithian wedi ei lyncu mewn buddugoliaeth, a neb ar y ddaear *newydd* ond saint anfarwol y Goruchaf, ac yntau yn eu plith oll yn oll. Dyma athrawiaeth apostolion yr Arglwydd Iesu, yr hon a ddysgir yn eu Epistolau at yr Eglwysi.

Heblaw llawer o frawddegau cyfystyr ereill, cyfarfyddir â'r gair parousia yn yr Epistolau oddeutu deuddeg o weithiau, ac oll yn meddwl dyfodiad a phresenoldeb yr Arglwydd Iesu yn ei deyrnas ar y ddaear. Ni chaf sylwi ond ar ychydig o honynt yn fyr, gan adael y lleill i ymchwiliad eich darllenwyr a deimlant ddyddordeb mewn athrawiaeth ag sydd o gymmaint pwys yn ngolwg pob Cristion difrifol.

"Eithr pob un," medd yr Apostol Paul, "yn ei drefn ei hun. Y blaenffrwyth yw Crist, wedi hyny y rhai ydynt eiddo Crist yn ei ddyfodiad" (parousia). 1 Cor. xv. 22. Siarad mae'r Apostol yma am drefn neu *arrangement* (Gr. *tagma*) y tri adgyfodiad. Y cyntaf yw adgyfodiad Crist, fel yr ysgub gyntaf o'r cynauaf sydd i ganlyn. Yn nesaf, adgyfodiad y rhai ydynt yn eiddo iddo, sef ei saint, y duwiolion, y rhai a fuont ffyddlon iddo, ac yn ei ganlyn trwy holl drallodion a themtasiynau y bywyd presenol. Yna, ar ddiwedd ei deyrnas, pan fyddo wedi dileu holl awdurdodau y cenedloedd, y canlyn y trydydd adgyfodiad, sef yr un cyffredinol. Fel y sylwyd o'r blaen, diwedd y mil-flwyddiant sydd i ddeall yma. Ar y ddaear yr adgyfododd yr Iesu. Yn y ddaear mae ei saint etto yn gorwedd—y mwyafrif o honynt. Mae yn canlyn mai ar y ddaear yr adgyfodant, a chan mai yn ei ddyfodiad, neu ddechreu y parousia, y bydd hyn, am hyny, y mae i ddychwelyd etto i'r byd.

Yn awr, gofynaf, a oedd yr Apostol wedi camsynied? Yr Apostol, meddaf, yr hwn a ddysgwyd yn egwyddorion yr Efengyl gan yr Arglwydd ei hun wedi ei adgyfodiad o feirw (Gal. i. 12), ac am yr hwn y dywedodd, "Llestr etholedig i mi ydyw, i ddwyn fy enw gerbron y cenedloedd a phlant Israel" (Act. ix. 15). A yw yn bossibl fod y llestr

etholedig hwn yn dwyn cenad anwireddus iddynt? Os nad yw, mae'r genad yn wir, a beiddiaf roddi hèr i holl feirniaid dinystredig (*destructive critics*) Cred i brofi nad yw'r Epistolau dan ei enw, a llyfr yr Actau yn iawn-awdurdodol. Yn wir, nid wyf yn deall i neb o honynt etto i gynnyg gwneuthur hyn o ddifrif. Ymfoddlonant ar wneuthur honiadau cryf, ac arweiniant rai i roddi coel iddynt.

Ni chaniata eich goddeb i mi ganlyn yr Apostol yn mhellach. Gweled y darllenydd 1 Thess. ii. 19; iii. 13; iv. 15.

Yn nesaf, awn yn mlaen at yr Apostol Iago. "Byddwch, gan hyny, yn ymarhous, frodyr," medd efe, "hyd ddyfodiad (parousia) yr Arglwydd. Wele, y mae y llafurwr yn dysgwyl am werthfawr ffrwyth y ddaear yn dda ei amynedd am dano . . . Byddwch chwithau yn dda eich amynedd, oblegyd dyfodiad (parousia) yr Arglwydd a nesaodd:" v. 7—8. P'un a oedd Iago a'i peidio wedi camsynied yn nghylch amser y parousia, yr oedd yn sicr o'r ffaith ei fod i gymmeryd lle, ac ar y ddaear. Dylem ystyried nad yw Duw yn ei holl weithredoedd byth mewn brys. MAE DIGON O AMSER GAN DDUW. Mae mil o flynyddoedd gydag ef fel un dydd. Creaduriaid bach fel y ni sydd yn gweled amser yn hir, a chreaduriaid bach iawn sy'n dweyd pe fyddai Crist i ymddangos o gwbl, buasai wedi dychwelyd yn mhell cyn hyn. Dysgwn, fel yr hwsmon, i fod yn amyneddgar.

Cawn hefyd yr un fath dystiolaeth yn nghylch y parousia yn ail Epistol Pedr. Mae yn debyg fod y pryd hyny, fel yn awr, annghredinwyr yn y parousia. Gofynent, medd yr Apostol, "Pa le y mae addewid ei ddyfodiad (parousia)? Canys er pan hunodd y tadau, mae pob peth yn parhau fel yr oeddynt o ddechreuad y greadigaeth:" iii. 4. Dyma fel y mae llawer yn gofyn yn awr. Mae Pedr, fel ereill o'r Apostolion, yn cadarnhau y ffaith fod y parousia i gymmeryd lle. Gwel hefyd ad. 12; i. 16. Nid yw yn perthyn i'm pwnc yn bresenol i drafod y cwestiwn yn nghylch iawn awdurdod y llythyr hwn. Ymddengys i mi fod cryfach rhesymau i gredu mai yr Apostol Pedr yw ei awdwr, nag y sydd o'r ochr arall.

Yn ddiweddaf, tystiolaeth Ioan yn ei Epistol cyntaf, ii. 28. "Ac yr awrhon, blant bychain," medd efe, "arhoswch ynddo (yn Nghrist); fel, pan ymddangoso efe, y byddo hyder genym, ac na chwilyddiom ger ei fron ef yn ei ddyfodiad (parousia)." Mae tystiolaeth Ioan yn nghylch y parousia yn un neillduol o werthfawr. Gwrthbrofa y dyb i'r parousia gymmeryd lle yn ninystr Jerusalem. Wedi i hwnw ddygwydd yr ysgrifenodd Ioan yr Epistol, er hyny, cyfeiria at y parousia fel i gymmeryd lle yn y dyfodol.

Wele fi yn awr wedi gorphen olrhain, yn fyr ac anmherffaith ddigon, yr athrawiaeth fawr hon trwy y Testament Newydd hyd at lyfr y Dadguddiad. Beth all—beth raid fod y casgliad? Onid fod y parousia, neu ddyfodiad Crist, yn un o brif athrawiaethau yr Eglwys Apostolaidd? Tystia hanes yr Eglwys foreuol hefyd yr un peth, ac i'r athrawiaeth bara yn yr Eglwys dros ddau chant o flynyddau. Gwel fy llythyr yn Rhifyn Mawrth. O'r diwedd darfu i'r Crist'nogion Platonaidd lwyddo i'w hymlid allan, a gosod i fyny yn ei lle eu hathrawiaeth o

"enaid anfarwol" mewn dyn. Y canlyniad fu i gyfnewidiad mawr gymmeryd lle yn athrawiaeth (*doctrine*) yr Eglwys. Trosglwyddwyd teyrnas Crist o'r ddaear i'r nef, a phoblogwyd hi ag *eneidiau*. Yr oedd yn canlyn fod yn rhaid rhoddi meddwl ysprydol i lawer *passage* yn yr Ysgrythyrau a ddeallid o'r blaen mewn ystyr lythyrenol. Mae y dull hwn o esponio yn para hyd y dydd heddyw. Mewn gair, cymmaint yw y cyfnewidiad sydd wedi cymmeryd lle yn athrawiaeth yr Eglwys forenol, fel y mae yn rhesymol casglu, pe adgyfodai yr Apostolion yn awr o'r llwch, nis gallent ei hadnabod fel yr Eglwys a blanasant hwy.

Yn ddiweddaf, gofynaf yn mha le, neu gan bwy y cafodd yr Apostolion athrawiaeth y parousia, neu ddyfodiad yr Arglwydd? Nid yw i'w chael yn yr Hen Destament, nac yn mhlith yr Iuddewon. Eu cred hwy oedd "fod Crist yn aros yn dragywyddol" (Ioan xii. 34). Nis gall ond un ateb fod i'r cwestiwn. Oddiwrth yr Arglwydd ei hun y derbyniasant eu gwybodaeth o honi. Am hyny, mae'r athrawiaeth yn wir, pa mor anmhoblogaidd a dirmygedig bynag ydyw hi yn awr yn mhlith Crist'nogion. Ond y mae yn dechreu adfywio, ac wedi gwneyd cynnydd yn y blynyddau diweddaf, Mae rhyw anesmwythder, rhyw gyffro, yn ei chylch trwy holl Gred. Mae yn wir fod pethau ffol wedi cael eu hysgrifenu a'u dweyd am dani, a rhai wedi *proffwydo* yn ffol am yr amser, ond nid yw yn llai gwir o hyny. Daw dynion i'w deall yn well fel mae'r amser yn dynesu, a mi ddywedaf yn ngeiriau Ioan, "Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu."

Birkenhead, Medi 9. D. L. Evans.

O.Y.—Gyda golwg ar erthygl Mr. James yn eich Rhifyn diweddaf, nid oes genyf nemawr i ddweyd. Nid yw wedi dod i'r maes i ddadleu â fi o gwbl, medd, oblegyd, mae yn gwadu fy nghynseiliau yn bonderfynol, ac awdurdod y Beibl i brofi unrhyw athrawiaeth. Nid ystyria awdurdod y Beibl yn fwy nâ rhyw lenyddiaeth ddynol arall. Am hyny, nid oes dim lle i ddadleu. Ei fwriad yn dyfod i'r maes, medd, yw dangos ei safle ei hun ac ereill o'r un daliadau ar y pwnc, sef teyrnas Dduw. Hyny yw, os nad wyf yn camsyniod, ei fwriad yw "gwyntyllio" ychydig ar syniadau y *New School*, fel ei gelwir, neu efallai yn hytrach syniadau presenol Dr. Martineau. (Nid fy ngair i yw "gwyntyllio," ond gair Mr. James). Gan fod syniadau y *New School* yn awr yn bur adnabyddus i lawer o'm cyfeillion Undodaidd yn Nghymru, ai nid mwy boddhaol fyddai iddynt pe gosodai Mr. James o'u blaen ei resymau dros wrthod awdurdod yr Ysgrythyrau, a'u hystyried ddim yn fwy nâ llenyddiaeth ddynol? Mi debygwn y byddai. Ni wna honiadau (*assertions*) ddim o'r tro, byddent mor gryf ag y bont. Gormod o honynt sydd yn awr, ac yn erthygl Mr. James. Oni wna hyn, buasai yr llawn cystal, os nid yn well, iddo beidio dod i'r maes o gwbl. Nid ychwanegaf, ond sylwwaf yn fyr, fod dau neu dri o bethau yn yr erthygl ag wyf fi yn feddwl sydd yn dra annheilwng o Mr. James a phawb ereill. Un peth, dyweda am hen ddyn fel y fi, sydd bron ar derfyn bywyd, ac wedi talu llawer o sylw erioed i'r Beibl, a hyny cyn ei eni ef, fy mod yn marchogaeth *hobby*, neu gel pren. Yn wir, nid

hobby genyf fi yw dyfodiad yr Arglwydd Iesu yn ei deyrnas, ond gwirionedd pwysig a sobr ag sydd yn dylanwadu ar fy holl natur. Mae hefyd yn rhestru y Christadelphiaid gyda'r Ysprydegwyr, y Mormoniaid, a'r *Peculiar People*. Gan nad beth, gallaf ddweyd mai dynion difrifol ydynt a chadarn yn yr Ysgrythyrau. Teilyngant, o leiaf, ychydig o foneddigeiddrwydd o du eu gwrthwynebwyr. Ond, yr wyf yn pasio heibio i Mr. James. Dyn ieuanc ydyw. Dichon y gwnaf ar y diwedd fwy o sylw o'r erthygl, yn enwedig y dyfyniadau o Dr. Martineau a Dr. Vance Smith.—D. L. E.

JOHN WICLIFFE.

Parhad o tudalen 186.

Wedi dychwelyd i Loegr, pennodwyd Wicliffe i berigloriaeth Lutterworth, yn swydd Leicester, a gweinyddai yr un pryd fel Athraw Duwinydd yn Rhydychain. Llafuriai yn galed fel gweinidog, gan ddysgu y bobl yn mhethau dwyfol y Beibl. Yr oedd yr offeiriadaeth Babaidd wedi hen arfer a gwneyd gwaith byr o'r bregeth yn y gwasanaeth, ond adferodd Wicliffe hi'n fuan i'w lle a'i gwaith cyntefig. Efe a roddodd gychwyn i'r syniad o bregethwyr teithiol, dynion a gerddent o amgylch yn droednoeth, mewn dillad llaesion o liw llwydgoch, i bregethu iachawdwriaeth i'r bobl trwy waed Crist. Galwai y dynion hyn eu hunain yn "offeiriaid tlodion," a gelwid hwy wedi hyny gan y bobl, "Lolardiaid." Ymunai y dynion hyn â'u gilydd, meddaf Wicliffe, er dylyn esampl Crist a'i Apostolion, hyd y gallent, trwy lafurio yn y manau yr oedd mwyaf o'u heisieu, tra y daliai eu nerth, heb ymyraeth dim ag offeiriaid ereill a gyflawnent eu gwaith yn ffyddlon.

Trwy ei ymdrech i ledaenu yr Efengyl fel hyn yn mhlith y bobl, ennillodd Wicliffe rai cyfeillion, a llawer o elynion. Amcanodd corff cryf, yn enwedig o'r mynachod cardoteiol, fel yr awgryma efe ei hun, am ei fywyd. Arferid pob ystryw y gellid meddwl am dano i geisio lladd ei ddylanwad a'i ddefnyddioldeb. Yn 1376, tynasant allan o'i ddarlithiau, ei ysgrifeniadau, a'i bregethau, bedwar-ar-bymtheg o osodiadau, a gyfrifent hwy yn gyfeiliornus, ac anfonasant hwy i Rufain i gael eu condemnio gan y Pab. Cyfeiriai y rhai hyn yn benaf at allu annherfynol y Pab; meddiannau tymhorol yr Eglwys; hawl lleygwyr dros yr offeiriaid; awdurdod yr agoriadau, a grym ammodol ysgymmundod. Mewn canlyniad i hyn, anfonodd Gregori XI. allan yn 1377, dair gwarant yn erbyn Wicliffe, y rhai a anfonodd yn llaw cenad i Loegr, ac un o honynt wedi ei chyfeirio at y brenin Edward III. Galwai y Pab sylw y brenin at yr athrawiaethau a ddysgid gan y Diwygiwr, nid yn unig fel rhai croes i'r ffydd Gatholig, ond hefyd fel rhai dinystriol i iawn drefn yn y wlad hon. Mynai i'r brenin ei

gadwyno a'i garcharu; yna ei holi am ei olygiadau, ac anfon ei atebion i Rufain, o ba le y gellid dysgwyl cyfarwyddiadau pellach am y modd i ymddwyn tuag ato. Ni chafodd y gwarantau, fodd bynag, nemawr o dderbyniad yn Lloegr, oddieithr gan yr Esgobion.

Yr oedd marwolaeth Edward III., ac esgyniad ei fab Richard II. i'r orsedd, yn hytrach yn bleidiol i'r achos oedd gan Wicliffe mewn llaw. Erbyn hyn yr oedd y Senedd yn llwyr benderfynol yn erbyn hawliau arianol y Pab. Yr oedd dau uchelwr, o allu a dylanwad mawr yn y wlad, John Gaunt, Dug Lancaster, a'r Maeslywydd Henry Percy, wedi dyfod allan yn gyhoeddus fel noddwyr ac amddiffynwyr i'r Diwygiwr. Yr oedd llawer o'r bobl hefyd yn glynu wrtho, a'u nifer yn amlhau yn feunyddiol. Dan yr amgylchiadau hyn yr oedd yn anmhosibl gweinyddu y gwarantau yn llythyrenol, ond gwysiwyd Wicliffe, gan Archesgob Canterbury ac Esgob Llundain, i ymddangos ger eu bron hwy mewn llys yn Lambeth. Heb un petrusdod ufuddhaodd i'r alwad ag oedd wedi cael ei danfon iddo, a gwnaeth ei ymddangosiad ger bron ei farnwyr. Yr oedd y Dug Lancaster, yr hwn oedd wedi dyfod allan fel amddiffynwr iddo ar achlysur blaenorol, yn awr yn absenol; ond yr oedd digon o wroldeb yn Wicliffe i sefyll wrtho'i hunan, a dadleu ei achos. Danfonodd ateb ysgrifenedig mewn amddiffyniad i'r gosodiadau oeddent wedi cael eu condemnio gan y Pab, yn egluro eu hystyr, ac yn eu cyfiawnhau bob yn un ac un, ac yr oedd wedi bwriadu i'r ateb yma gael ei anfon at y Pab ei hun. Aeth mo'r arholiad heibio heb lawer iawn o derfysg. Danfonwyd Syr Henry Clifford, gan y weddw Dywysoges Cymru i geisio gan y *Commissioners* i beidio pasio barn ddiweddol; ac yr oedd dinasyddion Llundain, hefyd, wedi ymgasglu yn dorf o amgylch y palas, a chan wthio eu ffordd i fewn i'r capel lle'r oedd y gweithrediadau yn cael eu cario yn mlaen, yr oeddent yn dangos eu cymmeradwyaeth o achos godidog y Diwygiwr mewn iaith nas gallai neb ei chamsynied. Fel hyn, yn ngwyneb y wasgfa ag oedd yn cael ei dwyn arnynt o bob cyfeiriad, yr oedd y *Commissioners* heb un gallu i fyn'd yn mlaen. Ond er mwyn cadw ymddangosiad darfu iddynt ei wahardd i ddysgu y gosodiadau yma yn y dyfodol, naill ai trwy ddarlithio neu trwy bregethu. Ond er gwaetha'r cyfan, teimlai Wicliffe ei hun mor rhydd ag erioed.

Yn Llyfrgell Prif-ysgol Prague, gellir gweled darlun hynod o dlws ac awgrymiadol. Mae yn gynnwysedig o dri *medallion* yn codi un oddiar y llall. Yn y cyntaf mae John Wicliffe yn cael ei arddangos yn taro gwreichion allan o gareg; yn yr ail mae Hus, y Bohemiad, yn rhoi tân yn y glo; tra yn y trydydd, mae Luther, yr Ellmyn, yn cario goleu tanbaid ffagod wenfflam. Mae y trindod yma o ddarluniau yn eglurhad prydferth o genadwri Ddwyfol y tri Diwygiwr mawr. John Wicliffe, y Sais, yw y gwir yspryd gwreiddiol, un sy'n dwyn goleuni newydd, Prometheus arall yn nhiriogaeth pethau ysprydol. Trwy ei sefydliad o "Offeiriaid Tlodion," llwyddodd i ddwyn meddwl y werin i gyssylltiad agosach â'r Efengyl bur, sicrhaodd iddo'i hunan gyfrwng arall i gyfarfod ag angenion ysprydol y bobl yn ei gyfieithad o'r Beibl i'r iaith Seisnig. Nid ydym yn bwriadu dadleu faint oedd rhan gywir

Wicliffe yn y gwaith anferthol hwn, ond mae y drychfeddwl cyntaf yn ddyledus iddo ef. Gwyddom 'nawr iddo ef ei hunan gymmeryd rhan yn y cyfieithad, a rhaid priodoli gorpheniad yr holl waith i'w sel a'i gefnogaeth, i'w egni diflino, ac i nerth digyffelyb ei ewyllys benderfynol. I Wicliffe mae Lloegr yn ddyledus am y rhodd werthfawr hon, ffrwyth drychfeddwl godidog a newydd; *newydd* mewn dau ystyr, oblegyd ei amcan oedd cael *cyfieithad llythyrenol* o'r holl Feibl, heb esponiad na barn, a bwriedid iddo fod yn *meddiant pob dyn.* Ond er i gyflawniad y gwaith gogoneddus hwn gael ei gychwyn trwy awgrym a chefnogaeth Wicliffe, eto ymddengys mai rhyw bedair blynedd ar ol ei farwolaeth, yn 1388, y cafodd ei orphen gan ei gyfaill, John Purvey, yr hwn oedd ar y pryd yn gurad yn Lutterworth. Erbyn hyn yr oedd amryw gopiau, yn enwedig o'r Testament Newydd, mewn cylchrediad. Gellir casglu fod y cyfieithad diwygiedig hwn wedi cael llawer o ddarllenwyr oddiwrth y ffaith fod mwy na chant a hanner o gopiau o hono ar glawr o hyd yn ngwahanol lyfrgelloedd y wlad. Yr oedd cyfieithad y Beibl yn weithred a saif am fwy nag yr ymddengys, a gallwn ychwanegu ei fod wedi cyflawnu mwy nag a addawai ar y cyntaf. Oblegyd ni welodd y cyfieithwyr yr oll oedd yn gynnwysedig yn yr hyn a wnaethant, mwy nag y gwelodd ein hynafiaid yr oll oedd yn gynnwysedig yn y Freinlen Fawr. Yn wir, mewn rhagor nag un ystyr mae y Beibl wedi dyfod i bobl y wlad yma yn freinlen fawr eu rhyddid crefyddol. Oblegyd darfu i gyflawniad drychfeddwl Wicliffe ddyfod yn ffaith hanesyddol, yn llawn egwyddorion a brofasant yn mhen tua chant a hanner o flynyddau'n ddiweddarach y cyfryngau mwyaf nerthol yn eu dylanwad ar feddwl Ewrop. Yr egwyddorion yma oeddent ryddhad dynion o ddwylaw yr offeiriaid. Hawl barn bersonol; digonolrwydd yr Ysgrythyr Sanctaidd mewn perthynas i iachawdwriaeth; a gosod yr awdurdod ddiweddol mewn materion crefyddol, nid ar yr eglwys Babaidd, ond a'r dyn ei hunan.

Wrth roddi mynegiad i'r egwyddorion goruchel yma, ar ba rai y gorphwys bywyd ysprydol a deallol ein cenedlaeth bresenol, aeth Wicliffe dros derfynau ei wlad a'i oes ei hunan, ac fel prophwyd ac athrylith grefyddol, rhagflaenodd y bywyd ysprydol newydd hwnw, nad oedd ei genedlaeth ei hun ond yn dechreu cael cipolwg arno. Wrth ei gymharu â dynion mawrion ei amser, mae yn sefyll o'n blaen ni wedi ei orchuddio mewn math o ardderchogrwydd ac o ddirgelwch unig, yr hwn sy'n awr yn araf yn pasio heibio, fel yr ydym ni yn dysgu mwy am dano, am ei weithredoedd a'i addysgiadau.

Gallem hefyd edrych ar y cyfieithad hwn o'r Beibl oddiar safle arall heblaw yr un grefyddol, ond ymataliwn yn bresenol gyda dyweyd yn unig, fod Beibl Wicliffe yn dynodi cyfnod yn yr iaith Seisnig, yr un fath a Beibl Luther yn hanes llenyddiaeth yr Almaen.

Yn 1381, daeth allan fel gwrthwynebwr i athrawiaeth y traws-sylweddiad, gan wadu pob rhith o'r presenoldeb corfforol, a dal allan nad oedd y bara a'r gwin yn ddim ond arwyddluniau o gorff Crist a'i waed, gyda'r eglurhad ychwanegol, eu bod yn achos credinwyr, yn arwyddluniau sylweddol, yn gosod y rhai a gyfranogent o honynt trwy wir a

bywiol ffydd, mewn cyflwr o undeb gweithredol â Christ. Ond ni lwyddodd i ennill yr un cydymdeimlad yn y pwnc yma ag a ennillodd yn y lleill. Galwodd Canghellydd Prif Ysgol Rhydychain ddeuddeg o ddoctoriaid i ystyried y pwnc, ac fel y gellid dysgwyl, barnodd y rhai hyny fod Wicliffe yn heretic. Gwaharddwyd iddo bregethu ei olygiadau dan boen carchar ac ysgymmundod. Ond heb ofalu am na barn na dedfryd, yn mlaen yr oedd Wicliffe yn myned fel Diwygiwr. Bob dydd yr oedd ei law yn drymach ar y mynachod cardoteiol. Rhoddodd hyn dramgwydd mawr i'r Dug o Lancaster, un o'i noddwyr a'i amddiffynwyr boreuol; ond nid oedd na gwg na gwen neb yn ddigon i beri i'n gwron da wyro dim ar ei ffordd. Galwyd cynghor gan Archesgob Canterbury i wneyd ymchwiliad i heresi Wicliffe, ond dyryswyd ei weithrediadau gan ddaeargryn a gymmerodd le ar y pryd, yr hyn a berodd iddo gael ei alw yn gynghor y ddaeargryn. Llwyddodd y cynghor, pa fodd bynag, mor bell ag i gondemnio rhai o osodiadau Wicliffe, a thrwy ddylanwad yr Archesgob, cafwyd gan y brenin Richard, orchymmyn rhoddi mewn dalfa bob un a geid yn euog o ddysgu ei athrawiaethau.

Dygwyddiad ffodus, fodd bynag i olygiadau y Diwygiwr, y pryd hwn, oedd y rhwysg a gymmerodd le yn y Babaeth, trwy fod dau Bab yn cydymryson am y gadair. Yr oedd Rhufain ac Avignon yn taranu eu melltithion yn erbyn eu gilydd. Un holiad mawr oedd yn cyffroi yr holl fyd Cristionogol, sef pwy oedd y gwir Bab! Ac mewn papyr a ysgrifenwyd ganddo ar y pwnc, dywed Wicliffe: "Yr ydym ni eisoes yn ymddiried yn nghymhorth Crist, canys efe a ddechreuodd yn rasol ein cynnorthwyo, gan ei fod wedi hollti pen yr annghrist, a gosod y darnau i ymladd â'u gilydd."

Yr oedd seren foreu y Diwygiad yn awr ar fachlud—marwolaeth Wicliffe ger llaw. Ni ellir dweyd ond ychydig am ei flynyddau olaf, y rhai a dreuliodd yn Lutterworth. Yma y bu fyw fywyd esmwyth offeiriad plwyfol, heb gael ei aflonyddu mwy gan ei hen elynion, y rhai ni feddent ddigon o wroldeb i'w erlid ef yn mhellach. Oddiwrth un o'i draethodau dadleuol, yr hwn sydd newydd ei gyhoeddi gan y *Wicliffe Society*, gwireddir amgylchiad yn y cyfnod hwn o'i fywyd ag oedd cryn amheuaeth wedi cael ei daflu arno hyd yn hyn: gwysid ef i ymddangos ger bron y Pab yn Rhufain. Ond darfu i iechyd dadfeiliol rwystro "yr offeiriad gwan a chloff oedd wedi ei alw i Rufain," oblegyd "mae Brenin y breninoedd yn ei orfodi ef, ac yn chwennych iddo beidio myned." Oddiwrth yr ymadrodd hwn gwelwn fod y geiriau wedi eu llefaru gan ddyn oedd yn ymddynesu i breseno/deb Barnwr uwch a mwy cyfiawn na'r un oedd ef wedi cael ei wysio i ymddangos ger ei fron ef. Tra yn gwrando offeren ar Wyl y Babanod, yn y flwyddyn 1384, yn ei eglwys ei hun yn Lutterworth, tarawyd ef yn ddisymwth gan y parlys mud, a bu farw Rhag. 31, 1384, "wedi cyneu tân na chawsai byth ei ddiffodd." Mae'n ffaith ryfedd, iddo ragfynegu y cyfodai mynach ar ei ol a brofai'n waredwr i'r eglwys.

Fel hyn y bu farw John Wicliffe, y rhagddiwygiwr mwyaf, ac un o'r dynion mwyaf a gynnyrchodd y wlad yma erioed; athrylith grefyddol,

olion pa un sydd i'w gweled, nid yn unig yn hanes ei wlad ei hunan, ond yn hanes ysprydol dynolryw. Mae ymchwiliad diweddar yn profi nad oedd y Diwygiad yn Germany, yn Lloegr, nac yn Bohemia, ddim yn ffrydiad disymwth, ond rhaid olrhain ei ddechreuad yn ol i'r gorphenol, ac nis gellir dweyd am neb gyda mwy o wirionedd nag am John Wicliffe, mai efe a roddodd symbyliad i'r dòn hono sydd erbyn heddyw wedi ymysgubo dros ranau helaeth o'r byd adnabyddus. Yn ysprydy dyn rhyfeddol hwn y cyfododd Protestaniaeth. Trwy fawredd ei enaid, dyfnder ei deimlad crefyddol a chenedlaethol, a llymder ei ddeall, yr oedd wedi dyfod yn arweinydd ei bobl. Pan oedd gallu newydd meddylddrych cenedlaethol a chrefyddol yn ymorchestu am ei fodolaeth yn Lloegr tua diwedd y canol oesau, Wicliffe oedd deonglydd mwyaf gwirioneddol y meddylddrych yma. Ac yn awr pan mae gwlad ddiolchgar yn cadw ei choffadwriaeth bum can mlwyddol am ei farwolaeth, ymddengys i mi yn ddyledswydd orphwysedig ar y genedl i adnewyddu, a dwyn adref i'n cenedlaeth bresenol adgof am feddwl mor ogoneddus. Pum can mlynedd yn ol yr anadlodd y Doethawr mawr ei anadl olaf; ac yn ddiamheu ar ol derbyn budd a lleshad am ragor na phum cant o flynyddau oddiwrth y bendithion ysprydol a aethant allan oddiwrth yr athrylith godidog hwn, fe ddylai pobl ein gwlad, ag ydynt fynychaf mor falch o'u hanes gwladwriaethol a chrefyddol, ddeffroi o'r diwedd i deimlad o ddiolchgarwch at goffadwriaeth un o'i meibion mwyaf dysglaer. Mewn gwirionedd, dylai Lloegr fod yn falch o hono, yr hwn fu yn sylfaenydd un cyfnod yn hanes ei hiaith, yn wladwriaethiwr cenedlaethol, yn ymosodwr diarbed ar ddrygau ac hen arferion llygredig ei wlad a'i oes, yn ddadleuwr beiddgar a diflino, yn sylfaenydd urdd grefyddol newydd, yn Ddiwygiwr mawr na phetrusodd un amser i chwilio i mewn i wirionedd yr hen gredoau Pabyddol, un a dorodd trwy draddodiadau y gorphenol, ac un a ddaeth yn bleidiwr diofn rhyddid gwladol a chrefyddol.

Rhoddodd marwolaeth Wicliffe gyfle i weled anfarwoldeb ei egwyddorion. Dangoswyd gelyniaeth at ei ganlynwyr, am hir amser, ac yn y flwyddyn 1428, pan oedd yr esgobion wedi cael pobpeth yn eu ffyrdd eu hunain, penderfynasant arllwys eu llysnafedd ar goffadwriaeth Wicliffe. Felly, ar ol cael trwydded gan y Pab, darfu iddynt godi corff Wicliffe o'i orphwysfan—man dirgel ei fedd—yn hen fynwent yr eglwys y bu'n gwasanaethu ynddi cyhyd, a llosgasant y gweddillion pydredig ar bont fechan Lutterworth, a thaflasant y lludw i'r gornant gerllaw. Ond bydd byw ei enw, cynnydda ei ddylanwad, a bydd ei goffadwriaeth yn wyrddlas ac yn fendigedig o fôr i fôr, ac o gyfandir i gyfandir. N. N. S.

Y DELYN.

"Delyn wen, dy linynau—'sieryd
Suredd o'n calonau;
Mae dy swyn cufwyn yn cau
Nef ddolen am feddyliau."

CWDYN Y SAINT.

Mr. Golygydd,—

Fe ddywed hen ddiareb y "Ceir tipyn o bobpeth yn nghwdyn y saint," h.y., ychydig o bobpeth sydd dda a rhagorol. Wel, yr wyf V dipyn yn fyr o anadl, a chan nas gallaf redeg yn hir ar un pwnc heb *full stop*, rhaid fydd im' fod yn fyr ac i bwrpas. "Sketching is my province." *Sweet and short*, a mynych newid ymadrodd yw fy *motto*. Felly, ddarllenydd, cofia fod ar ddihun—os bydd y tamaid cyntaf, y *first course*, dipyn yn *flat* a diflas, mwy nâ thebyg y cei ffest ychydig nes yn mlaen; gan hyny, dal ati i'r diwedd. Gan nad wyf wedi cael ond "ambell i gwarter o ysgol yn y gauaf," rhaid i chwi, Mr. Golygydd, adael i mi siarad yn fy *nialect* fy hun, a cheisio gan Mr. Jenkin Howell i beidio meddwl na wyr neb y ffordd i spelian ond y fe! Cystal, 'falle, fyddai i mi ddweyd fy mod yn gryf fel spelianwr, ac fy mod wedi cymmeryd y *first prize* bob tro ag y treies yn y *Spelling BBB*. A chofied pawb nad yw Mr. Gol. ddim yn atebol am ddim a ddywedaf, oblegyd mae pob V fawr, er ei bod yn sefyll ar lai o sylfaen nâ neb arall, uwchlaw ymostwng i neb pwy bynag.

Cristadelphiaeth.—Gan fod ysgrifenu ar y pwnc hyn yn ffasiynol yn yr Ymofynydd er ys misoedd, bellach, mae o bwys i'r byd wybod y gallaf finau ddweyd gair neu ddau ar y testyn hwn. Yn wir, mi freuddwydiais neithiwr fod yr Ymofynydd yn *hard up* am fater, neu ni fuase y Shiboleth hyn yn duo ei dudalenau. Nid wyf fi yn gwybod faint o wirionedd sydd yn fy mreuddwyd, ond tybiaf mai fy nyledswydd yw anfon yn ddioed dipyn o *sense* fel ammheuthyn i'r Ymofynydd, gan fod newid bwyd yn dda i bawb bob amser!

The world is altogether out of joint. Mae yn hen ddywediad fod gwin yn gwella fel yr heneddia, ond nid felly y byd, yn ol tystiolaeth Mr. D. L. Evans. *The world is altogether out of joint*, medd efe; atebaf finau, *Not at all, but some men in it are.* Mae'r byd yn *all right*, ond mae rhai pobl yn y byd *fel arall*. Ond os gwir fod y byd wedi gwaethygu o oes i oes nes ydyw y dyddiau hyn "*altogether out of joint*"—altogether sylwer—fel yr haera D. L. E., mae yn canlyn, gan fod D. L. E. yn rhan o'r byd, fod D. L. E. wedi gwaethygu; a chan fod y "Proffeswr," yn ol ei dystiolaeth ei hun, *altogether out of joint*, pa ddyben talu sylw iddo ac i'r hyn a ysgrifena, oblegyd, yn ol y ddiareb, "Dyla dwl dwl hen." Mewn gair, nid wyf fi yn credu fod y byd yn gwaethygu, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. *Development is the law of life; progress is the condition of life.* Dadblygiad a gwellhad yw deddf bywyd. Lle byddo mwy o afiechyd nag o iechyd yn y corff, mwy o wendid nag o nerth yn y wladwriaeth, mwy o anfoesoldeb nag o burdeb mewn cymdeithas, dadfeilia y corff, syrth y wladwriaeth, diffodda cymdeithas. Yn ol cyfraith y nefoedd, nis goddefir i ddim ddiffrwytho y tir, ond torir ef i lawr megys y ffigysbren gynt. Mae'r byd, er dryced yw, yn fwy moesol yr oes hon nag y bu erioed o'r blaen, os gwir hanesyddiaeth. Cyfaddefa pawb fod cymdeithas yn ddigon brycheulyd—fod *dark spots on the moral constitution*, ond nid yw yr holl gorff yn ddu er hyny. Yn wir, mae'r "Proffeswr" yn annghysson ag ef ei hun, oblegyd ar ol ein

perswadio i gredu fod y byd ALTOGETHER *out of joint*, addefa fod dynion da yn y byd, ond mai "eithriadau ynt." *Nonsense*, byddai cystal dweyd mai tywyllwch yw prif nodwedd yr haul, ac addef fod *light spots* arno—fod fel pe byddai ambell i ganwyll frwyn yn llewyrchu ar ei wyneb, er rhoi math o *flickering light* i'r planedau sydd yn ymdroi o'i amgylch rhag iddynt golli'r ffordd, a tharo ar draws eu gilydd! Gwyr pawb mai llygad goleuni yw'r haul, a chreda llawer mai yn llygaid y "Proffeswr" mae'r *spots* duaf. Buase yn *interesting* iawn cael gwybod pwy farna Mr. Evans yn dda—pwy yw'r "eithriadau" y sonia am danynt. Mwy nâ thebyg yr ystyriai mai efe ei hun a'i frodyr Cristadelphaidd yw halen y ddaear, ac oni b'ai y "nhw," ni fuase dim siawns i'r byd fyned yn mlaen yn ei ddrygioni.

DYFODIAD CRIST.—Ar ol griddfan ac ocheneidio fod y byd mor ddryced, â Mr. Evans yn mlaen i brofi fod yn rhaid i'r drygioni hyn gymmeryd lle cyn dyfodiad Crist! Gan nad yw Crist hyd yma wedi ymddangos yn ol y broffwydoliaeth, mae'n eglur fod yn rhaid i'r byd waethygu yn mhellach cyn yr ymddangoso, a chan fod ail ymddangosiad Crist yn beth i'w ddymuno gan bawb, mae'n canlyn nad oes modd i brysuro ei ddyfodiad ond trwy ymwaethygu o ddydd i ddydd! Dyna athrawiaeth *iachus* i chwi! Mae'r athrawiaeth hon yn deilwng i'w gosod ochr yn ochr wrth yr athrawiaeth sydd yn cin dysgu, pe na buase yr Iuddewon wedi lladd yr Iesu, na fuase dim ond digofaint tragwyddol y Tad yn ein haros un ac oll. Credaf fi fod yr Iesu *yn bresenol yn awr* gyda phob yspryd ymwadgar ag sydd yn byw yn deilwng o'r esiampl a roddwyd i ni fel y canlynem ei ol. Ond nid wyf fi yn credu'r hen ofergoeliaeth a ddysgwyliai y byddai i'r Iesu ail ymddangos yn y cnawd ar y ddaear, a sefydlu ei hun ar orseddfeinciau y byd hwn. O frodyr, ni ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw.

APOSTASIA.—Dywed Ruskin ei fod, pan yn ieuanc, yn chwannog iawn o *uso* geiriau Groeg er mwyn dangos i'r byd ei fod yn ddyn mawr, ond ei fod erbyn hyn wedi dysgu gwell. Wel, mae'r "Proffeswr" yn dyoddef oddiwrth y gwegi bachgenaidd hyn yn ei hen ddyddiau, ac nid hyny yn unig, ond mae'r hen wr yn methu a chwoto ei Groeg yn *gorrect* bob amser (gweler YMOFYNYDD, tud. 154). Dywed Mr. Evans fod yr "*apostasia* wedi dyrysu meddyliau dynion," ac ä yn mlaen i gwoto fod "Duw yn danfon arnynt amryfusedd cadarn fel y credont gelwydd." Thanki! mae'r hen wr yn hynod o *gomplimentary* i ni fel enwad, o oblegyd nid oes dowt at bwy y cyfeiria. "Meddyliau dyrysedig" a "chredu celwydd"—dyna brif nodweddion yr Undodiaid. Yr wyf fi yn tynu'm hat i Mr. Evans am ei foneddigeiddrwydd. Ond gadewch i ni weled ystyr y gair. Meddylia *apostasia*, yr hwn yw y ffurf clasurol yn ol Liddell & Scott (*a*) *a standing away from*, sefyll bant; (*b*) *a revolt*, cilio ymaith, cymmeryd taraf. Meddyliwch fod haid o geffylau mewn cae, ac fod un o honynt yn "sefyll bant" oddiwrth y lleill i ddechreu, ac 'nol cilio i gymmydogaeth y clawdd, ei fod yn ddisymwth yn cymmeryd taraf, ac yn clirio y *fence*, gan grwydro i faesydd ereill—wel, mae'r ceffyl yna yn euog o *apostasia*. Ai ni fel Undodiaid, neu Mr. Evans, sydd

wedi cymmeryd taraf? Mae'n eglur mai efe sydd wedi cymmeryd y clawdd, a chrwydro o dŷ ei dad, ac o ganlyniad, yn ol ei ddangosiad ei hun, efe sydd yn euog o *apostasia*, ei feddyliau ef sydd ddyrysedig," ag efe, *os neb*, sydd yn "credu celwydd." Dyna ddigon o Gristadelphiaeth am y tro hwn; mwy nâ thebyg y ceir rhagor yn y rhifyn nesaf.

Ystyr Llan a Church.—Yr ydych chwi, Mr. Gol., yn abl i gymmeryd gofal o honoch eich hun, ond gan mai *y V* fu wrth wraidd galw capel Brondeifi yn *Unitarian Church*, y fi os neb sy'n haeddu llymdra Ap Ioan—Y cribwr llym o Gribor. Ond peidied Ap Ioan meddwl fod arnaf *gymmaint* o'i ofn ar hyn o bryd a phan oeddwn yn chwysu o'i flaen yn nghymmydogaeth y *stove* yn ngholeg enwog Pont Shân. (Pa un ai Ap Ioan ai y *stove* oedd achos y chwysu, nid da i'r byd ei wybod! Dywedir mai peth da i ddyn ieuanc yw gwneyd *flourish* o'i ddysgeidiaeth—fod hyn yn peru i'r anwybodus i fecko pen, twtcho hat, a chredu fod "rhywbeth yn y crwt." Yn awr, yntau, am dani. Dywed Ap Ioan eich bod chwi, Mr. Gol., ar eich pen eich hun pan yn defnyddio y gair *church* am yr adeilad ac nid am yr eglwys. Os gwnaiff Ap Ioan gymmeryd y drafferth o gonsulto *Liddell & Scott's Lexicon*, *Skeat's Etymological Dictionary*, *Wedgewood's Dictionary quoting Max Muller*, a geiriaduron Chambers ac Ogilvie, yn nghyda *Trench on the Study of Words*, caiff weled nad ydych ar eich pen eich hun o gwbl. Yn mhellach, "Chireche is holy godes hus * * and is cleped on boc kiriaka i. dominicalis" (The church is holy God's house, &c. O. Eng. Hom. ii. 23. Annghredadyn oedd Thomas gynt, ond annghredadyn mwy yw Ap Ioan, a phriodol yr enwyd of yn dwbwl Thomas. Mae Proff. Earle *ar hyn o bryd* yn dweyd mai'r gair Lladin *crux* (*crucis*) yw gwreiddyn y gair *church*, oblegyd yr adeiledid gynt yr addoldy ar lun y groes. Nid wyf yn gwybod fod neb arall o'r un feddwl. Dywed Lipsius, Garnett, ac ereill, mai gair perthynol a chyfystyr â *circus* yw,—"The name for the temple of Northern paganism, adopted by ancient and mediæval Christianity, in conformity with its principle of accommodating itself as far as possible with the usages of its proselytes." (Gwel *Encyclopædia Britannica under "Church."*) Mae'r olwg hyn yn fwy rhesymol nag un arall, ac mae'r gair Cymraeg Llan yn gyfystyr. Gwelir ystyr Llan mewn geiriau megys ŷd-lân, per-llan, cor-lan. Meddylia lle amgauedig, neu y cauad—*a place enclosed and open skyward, or perhaps the fence itself*). Beia Ap Ioan bobl Brondeifi am eu bod yn enwi eu haddoldy yn *Unitarian Church*, oblegyd fod y gair *church* yn anysgrythyrol. Wel, a ydynt yn *sinners above their neighbours* (Beth yw'r Cymraeg am hyn?) fod rhaid eu ceryddu yn arbenig? Ai nid gair anysgrythyrol yw *capel* hefyd? Er hyny, gwn i am dŷ cwrdd a elwir yn *Capel-y-Groes*. O Ap Ioan, bwrw allan *yn gyntaf* y trawst o'th lygad dy hun, ac yna y gweli yn eglur y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd. Mae'n bossibl mai Ap Ioan yw'r *hobby-rider* wedi'r cyfan.

Hyn yn fyr, ond i bwrpas, oddiwrth

V Vawr.

EIN HYSGOLION SUL.

(Allan o Adroddiad y "Sunday School Association," 1883—4.)

Ysgolion.	Ysgolheigion.	Gwrywaidd.	Menywaidd.	Cyfartaledd.	Athrawon. G	Athrawon. M	Uwch 16 oed.
Aberdar, H. D. C.	121	67	54	77	7	3	36
,, Cwmbach	49	25	24	36	3	2	26
Alltyplaca	78	35	43	36	5	3	40
Caerdydd	56	31	25	23	3	2	10
Capel y Fadfa	70	49	21	61	11	2	45
Cae'r Onen	52	24	28	32	2	3	34
Cribin	55	30	25	33	2	2	40
Llanbedr	50	28	22	42	6	2	75
Llwynrhydowen	90	50	40	65	7	2	50
Merthyr*							
Nottais	49	21	28	42	2	4	27
Pantydefaid	124	66	58	58	7	3	57
Rhydygwin	65	24	41	30	4	2	36
Trebannos	50	32	18	48	4	1	24

* No return.

Dyma ni unwaith etto yn gosod gerbron ein darlleuwyr sefyllfa ein Hysgolion Sul, ac y mae yn hyfrydwch genym sylwi fod pethau ar y cyfan yn ymddangos yn well—y mwyafrif o'r Ysgolion yn myned ar gynnydd mewn rhif; gobeithiwn eu bod hefyd mewn defnyddioldeb. Wrth gymharu yr adroddiad presenol â'r un llynedd (YMOFYNYDD Medi, 1883), mae amryw bethau yn cymhell sylw, ond ni wnawn nodi ond ychydig. Un peth sydd yn amlwg yw, nad yw y llyfrau yn cael eu cadw yn yr un modd, ac y mae rhai pethau nad ydym yn gallu eu deall o gwbl. Pan yn sylwi fod Llanbedr yn cynnwys 75 uwch 16 oed, ein casgliad naturiol oedd fod yma wallargraff, ond pan welwn 70 yn adroddiad 1883, nid oes gerym ond dywedyd nad ydym yn ei ddeall. Y mae yn amlwg fod yr ysgol mewn cyflwr iachus gyda chyfartaledd o 42 allan o 50 o ysgolheigion. Saif Pantydefaid yn uwchaf o ran cyfanrif fel arfer, er ei bod wedi myned i lawr o 144 i 124; ond er gwaethaf hyn, ein casgliad yw fod yr ysgol mewn gwirionedd yn fwy lluosog gyda chyfartaledd o 58, lle nad oedd y llynedd ond 53. Y cyfartaledd sydd yn dangos nerth yr ysgol. Ai rhif yr enwau ar y llyfrau yw 124, ynte y rhif uwchaf o'r presenolion ar unrhyw adeg? Dengys y golofn olaf un o nodweddion neillduol Ysgolion Cymru, nad ysgolion i blant yn unig ydynt; ond y mae amryw ffigyrau yn y golofn hon i mi yn hollol anesboniadwy wrth eu cymharu â'r colofnau ereill. Cawn fod banc cynnilo mewn cyssylltiad â dwy, a llyfrgell mewn cyssylltiad â dwy.

Cyfanrif ein Hysgolion yn Nghymru a Lloegr y llynedd oedd 209—eleni, 213; rhif yr ysgolheigion, 26,848—eleni, 27,783. Yr Ysgol fwyaf oedd Bury, 598; yr un leiaf, Newbury, 8. Un ysgol arall sydd

dros 500, sef Stepney. Dros 400 ac o dan 500 cawn 4; 9 dros 300 ac o dan 400; 29 dros 200 ac o dan 300; 63 dros 100 ac o dan 200. Cawn un o 21, un 20, a phedair o dan hyny. Teimlwn ddyddordeb yn y rhan olaf yma, am y credwn y dangosir yma hunanymwadiad ac ymdrech neillduol i gario gwaith pwysig yn y blaen yn ngwyneb anfanteision mawrion. Ar gynnydd yr elo yr holl Ysgolion Sul mewn rhif ac mewn defnyddioldeb, a dyweded yr holl bobloedd Amen.

CAPEL Y GRAIG, LLANDYSSUL.

Cafwyd cyrddau hwylus a rhagorol ar yr achlysur o agoriad y capel tlws uchod ar y 3ydd a'r 4ydd o Gorphenaf diweddaf. Gallwn i feddwl y dylai'r pregethwyr a'r gwrandawyr fod wedi cael hollol foddlonrwydd yn nhrefniadau Mr. James, er mai nid hawdd iawn yw boddio'r blaenaf bob amser,—*set* geintachlyd ydynt, yn barod i rwmial am y peth lleiaf braidd. Yn ein cyfarfodydd fynychaf mae amryw o'r gweinidogion nad ydynt yn cael cenad i ddywedyd dim; gosodir hwynt o'r neilldu, wedi eu safngloi mal pe byddai; ond yn Llandyssul anrhydeddwyd pob un o honynt â chyfleusdra i draethu ei len mewn rhyw ran o'r gwasanaeth. Yr ydwyf fi o ran fy hun yn caru clywed pob un o'r gweinidogion yn siarad, ac nid ydwyf erioed wedi gwrandaw heb glywed rhywbeth er adeiladaeth gan nad pa aelod o'r frawdoliaeth fyddai yn llefaru, ond y mae ambell i berson hunandybus, yn ei feddwl ei hun, yn ymylu ar hollwybodaeth, ag nad ydyw ddichonadwy i ddywedyd dim na fyddo yn ei wybod yn barod. Dylai y cyfryw, gyda chwareu teg, gael ei drosglwyddo i ryw gylch uwchddaearol.

Wedi myned o'r holl gyfarfodydd drosodd, cynnaliwyd *conference* yn yr hwyr, agored i leygwyr yn gystal a gweinidogion, ond ychydig mewn cymhariaeth o'r blaenaf oedd yn bresenol. Trafodwyd yno un pwnc lleol pwysig, ac yn benaf gan y lleygwyr. Yr oedd yn dda genyf eu clywed yn siarad ac yn amlygu cymmaint o deimlad a brwdfrydedd yn yr achos. Y pwnc mewn llaw ydoedd yr achos Undodaidd yn Llandyssul. Wedi cael capel newydd, pa drefn oedd i fod er mwyn cael addoliad a phregeth yndd o yn rheolaidd ac amserol fel mewn capeli creill—yn y boreu a'r prydnawn bob yn ail, neu yn y boreu a'r hwyr yn ol fel y byddid yn dewis. Gwir, mai difywyd a diflas yn hytrach yw gwasanaeth am chwech yn yr hwyr, a dim ond hyny. Wel, yr oedd hwn yn ddiau yn fater teilwng o'i ystyried a'i benderfynu os yn alluadwy. Pa fodd yr oedd gwneyd i fyny'r diffyg hwn? Yr oedd yn rhaid cael un pregethwr yn ychwaneg. Pa le yr oedd cael gafael yn hwn? Er cyflymed y tyf pregethwr i'w gyflawn faintioli, ni thyf mor gyflym â bwyd y barcut. Mae'r pregethwyr Undodaidd sydd yn gweinidogaethu o fewn pellder cyfleus eisioes yn dyn yn eu gweddeifau, ac nis gellir dysgwyl un cynnorthwy oddiwrthynt hwy heb esgeuluso eu cynnulleidfaoedd eu hunain, yr hyn nid yw yn rhesymol ddysgwyliadwy; ond braidd na feddyliwn wrth siarad un neu ddau o'r brodyr

eu bod yn golygu y gallent pe yn cydymdeimlo fod o gynnorthwy yn awr ac yn y man. Efallai i mi eu camddeall. Y gwir yw, y mae yn hawddach adeiladu dwy simne nâ chynnal un. Nid Llandyssul yn unig sydd yn y cyfyngder hwn; mae chwech o gapeli Undodaidd ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin, a dim ond addoliad a phregeth bob pythefnos mewn pedwar o honynt, ac unwaith y mis yn y ddau arall. Gobeithio y tŷr y wawr o ryw gyfeiriad, ac y cyfyd rhagor o weinidogion yn yr enwad nag y sydd yn bresenol. Yn y cyfamser, paham na wnai rhyw ddau neu dri o bersonau o blith y lleygwyr ymgymmeryd â'r swydd o fod yn bregethwyr cynnorthwyol—o fod yn weision bach, yn barod i wasanaethu hwnt ac yma ar hyd y capeli wrth orchymmyn y gweision mawr, sef y prif weinidogion, fel y gwelir yn mhlith yr enwadau ereill? Anaml iawn y mae eu pwlpudau hwy yn wag ar y Sul. Y mae yn eu plith gydymdeimlad a chydweithrediad, fel y mae pobpeth yn myned yn mlaen yn hwylus a llwyddiannus. Paham na bai'r Undodiaid yn eu cymmeryd yn esiampl? Y mae yn ein plith ni ddynion penigamp (yn mhlith y lleygwyr wyf yn feddwl)—dynion o benau hirion, o amgyffredion nerthol, yn ddarllenwyr craffus, yn feirniaid medrus a hylym, ac yn siaradwyr difloesgni ar wahanol bynciau'r dydd, heb son dim am gymhwysderau ereill a berthyn iddynt fel aelodau cymdeithas a Christionogion egwyddorol; ond can hawdded braidd fyddai "tynu mêr o bost" a darbwyllo rhai o honynt, yn absenoldeb y gweinidog ambell i ddydd Sul, i ddarllen pennod, a myned i weddi, heb yngan gair wrthynt am gyflawn wasanaeth y cyssegr. Gwirionedd noeth a garw wyf wedi ei ddweyd; a allo amheu, amheued. Gwir, er pob anfantais, fod ein syniadau duwinyddol yn ennill tir yn raddol, yn cael derbyniad yn mhlith yr *Orthodox* mewn rhyw fanau, ond na atto Duw i'n difaterwch crefyddol ni ennill tir gyda hwy. Dylai'r Undodiaid fel plaid ddihuno, ymadnewyddu, a gwisgo eu nerth; dylai'r lleygwyr yn gyffredin gymmeryd mwy o ddyddordeb yn yr achos, ac nid gorphwys yn ormodol ar y gweinidogion am lwyddiant eu cynnulleidfaoedd. Yr ydym yn arferol o addaw i ni ein hunain a'n hachos ryw ddyfodol ysplenydd, ond cofiwn fod y dyfodol hwn yn ymddybynu ar y presenol. Ofer yw dysgwyl am gynauaf medi os na fyddis wedi hau.

Yr ydwyf wedi clywed yn ddiweddar, ac yr oedd yn ddrwg genyf glywed hyny, fod Mr. Evans, Gellionen, wedi rhoddi rhybudd i'r gynnulleidfa y bydd iddo ymadael yn fuan; ac yr ydwyf wedi clywed hefyd fod gweinidog y Cefn wedi gwneuthur yr un peth. Mae Mr. Parry wedi darfod â'r Nottais er ys tro. Hawyr anwyl! beth sydd ar ddyfod? Er y dywed Pope, "Hope springs eternal in the human breast," mae adegau pan y mae gobaith yn ffynnoni yn wan iawn yn y fynwes, ac felly y mae ar hyn o bryd, ond dichon fod y llanw gerllaw. Pe byddem ni mewn tymhor o ddrudaniaeth gweinidogaethol, ond cael gwasanaeth rhai o'n lleygwyr mwyaf galluog yn ein pwlpudau yn achlysurol, gallem er pob rhwystrau gadw'r tân yn nghŷn ac yn fflamio ar aelwydydd ein Seion. At eich gwaith yn egniol, Undodiaid Llandyssul, ydyw dymuniad calonog eich ufudd a'ch ffyddlon wasanaethwr.

Awst 16, 1884. Ap Ioan.

Manion.

Os yw opiniwn camsyniol yn gwneuthur dyn yn heretic, yna y mae pawb yn hereticiaid, gan fod pob dyn byw yn gamsyniol mewn rhai pethau.

Dywedodd offeiriaid yn Ffrainc yn ddiweddar mai barn oddiwrth Dduw oedd y *cholera*, o herwydd esgeuluso y gorymdeithiau crefyddol arferol ar un o'r uchelwyliau.

Dywedir fod llosgi cyrff y meirw yn dyfod yn fwy cyffredin yn Itali, ac nad yw yr offeiriaid Pabaidd mor wrthwynebol i hyny ag y buont.

Marwgofion.

Gorphenaf 10, yn 4 mlwydd oed, ar ol hir nychdod, Sarah, merch fechan John ac Eleanor Evans, No. 6, Railway Terrace, Llanybyther. Yr oedd yn blentyn ffraeth, mwynaidd, a hawddgar, ond hawdd y gallesid dweyd fisoedd cyn ei hymddattodiad, nad oedd dim dinas barhaus iddi yma yn ngwlad y ddaear. Ac o'r diwedd fe welodd y Tad nefol yn dda ei chymmeryd ato ei hun, a'i gosod yn berl yn nghoron yr Iesu bendigedig. Dydd Sadwrn canlynol, claddwyd yn mynwent Alltyplaca. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, a phregethwyd gan y Parch. H. James, (B.), Aberduar; yn y capel ac ar lan y bedd gan weinidog y lle.

Ei thymher fwyn a swynol,—ei golwg
Wylaidd a phrydweddol;
A'i san eiriau synwyrol
A gofir yn hir o'i hol.

Gorphenaf 10, yn 18 oed, Thomas, mab Thomas a Gwenllian Williams, o'r Wig. Daeth yr ymadawedig i'w ddiwedd yn ddisymwth iawn, ac o dan amgylchiadau a barodd alar a tristwch nid yn unig i'w rieni a'i berthynasau helaeth, ond hefyd i'r holl gymmydogaeth. Y dydd blaenorol yr oedd ef a'i rieni wedi myned i fyny i Cwmogwy gyda'r bwriad o chwilio iddo ryddhad oddiwrth glefyd y *cancer*, ag oedd yn peri iddo boen ac yn peryglu ei fywyd. Cafodd "ryddhad," ond nid yn y ffordd y carai ei gyfeillion daearol (trodd allan y tro yma drachefn mai nid ein ffyrdd ni yw ffyrdd Duw); bu farw y dydd uchod tra yn myned dan *operation* dan law y meddygon. Y Llun canlynol ymgynnullodd torf luosog iawn i *station* Penybont, i gludo ei weddillion marwol i fynwent Capel y Wig. Cydymdeimlai pawb o'r gymmydogaeth yn ddwys â'i rieni o dan eu siomedigaeth a'u galar dwfn, a theimlai pawb eu bod wedi colli plentyn tawel, diniwed, da, a gobeithiol iawn. Da genym fod ei rieni, drwy eu ffydd ddiysgog yn noethineb ffyrdd Duw wedi cael nerth i ddal i fyny dan yr ergyd trwm a disymwth.

Gorphenaf 26, yn 71 mlwydd oed, David Thomas, gwehydd, Bwlchyfadfa, ger Llandyssul. Yr oedd yn fab i'r diweddar John Thomas, Pontshân, awdwr "Cwyn y Cristion," a rhif 14 yn y Llyfr Emynau, ac yr oedd y mab i raddau pell yn cyfranogi o synwyr cryf a chynneddfau treiddgar y tad. Yr oedd iddo air da gan bawb a chan y gwirionedd ei hun. Claddwyd yn mynwent Capel-y-fadfa. Y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn gweinyddu.

Awst 1, David Evans, o Droedyrhiw, gerllaw Merthyr, yn 63 mlwydd oed. Brodor ydoedd ein cyfaill o blwyf Cilrhedyn, ac yn ystod y rhan foreuaf ei fywyd, bu yn aelod ffyddlon yn Panteg, ac wedi hyny yn H.D.C. y Cefn. Dyoddefodd gystudd caled oddiwrth y *cancer*, ond daeth y Cymmodwr mawr angeu i'w ryddhau o'i holl boenau. Dydd Mawrth canlynol, claddwyd ei weddillion yn mynwent yr H.D.C., a gwasanaethwyd gan y gweinidog.

Awst 6, yn 59 mlwydd oed, Thomas Lougher, o'r Wig. Ni ddaeth yn ymwybodol o'i glefyd—clefyd y galon—hyd oddeutu tri mis i'w farwolaeth, ond o hyny hyd y diwedd cafodd gystudd tra phoenus. Un rhinwedd a berthynai yn hynod i'r ymadawedig oedd *diniweidrwydd*; bu yn hynod o ddiwyd a gweithgar drwy ei fywyd ond etto yn ddirodres. Dangosodd y gymmydogaeth eu hedmygedd o'i gymmeriad drwy ymgynnull yn lluosog iawn i'w angladd. Claddwyd ef yn mynwent Capel y Wig.

Awst 22, trwy foddiad damweiniol yn afon Teifi, Evan, mab John a Ann Evans, Cross Hands, Llandyssul, yn 13 mlwydd oed. Claddwyd y dydd Llun canlynol yn mynwent Hen Dy Cwrdd y Llwyn, lle y pregethodd W. J. yn y capel, ac y gweddiodd T. T. yn y fynwent.

Awst 23, yn 19 mlwydd oed, yn dra dysymwth, James, anwyl fab Mr. a Mrs. Thomas, Southend, Cwrtnewydd. Cladd wyd ef y dydd Mawrth canlynol yn mynwent Capelybryn; a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. John Davies. Nerth a gaffo'r rhieni a'r perthynasau i ymostwng yn wyneb yr amgylchiad chwerw, ac i drefnu eu bywydau yn y fath ffordd ag y bo iddynt "fynediad helaeth i mewn i *dragwyddol* deyrnas eu Harglwydd a'u Hachubwr Iesu Grist."

Awst 23, Elizabeth Jenkins, yn 18 mis oed, merch fechan Evan a Margaret Jenkins, Treherbert, Pencarreg. Bydded i'r tad a'r fam gael nerth i ymdawelu o dan y brofedigaeth lem. Gwasanaethwyd yn ei hangladd gan weinidog Brondeifi.

Awst 26, o'r parlys mud, Mary Davies, Gwastod, diweddar Coedmorfawr, Pencarreg, yn 68 mlwydd oed. Yr oedd ein chwaer hon wedi bod yn wael iawn ei hiechyd am flynyddau, weithiau yn well ac weithiau yn waeth, ond daeth ei diwedd yn dra annysgwyliadwy i bawb. Yr oedd newydd ddychwelyd o fod yn rhoddi tro byr am ei chwaer a'i brawd-yn-nghyfraith (Parch. W. Rees), ac nid oedd yn teimlo'n waeth, fel yr ydym yn deall, o'r daith. Ond ar unwaith aeth y tafod ffraeth yn fud, ac ehododd y rhan fywydol i'r byd mawr anweledig. Ar ddydd ei hangladd daeth torf luosog, yn berthynasau a chyfeillion, i dalu iddi y gymmwynas olaf yn y byd hwn. Y mae'n hyfrydwch bob amser i glywed gair caredig am y marw, a gair caredig oedd gan bawb am yr ymadawedig yma, ac mewn modd nodedig felly gan dylodion y gymmydogaeth. Gadawodd ddau frawd a dwy chwaer a nith i alaru ar ei hol. Bydded iddynt gael nerth i ymgyssuro yn y gobaith gwynfydedig o gael cydgwrdd rywbryd etto. Claddwyd yn mynwent Brondeifi, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

Awst 27, yn mlodau ei ddyddiau, sef o gylch 43 oed, bu farw, wedi dyoddef cryn gystudd dwys, Edward Evan Williams, Prince of Wales, Cap Coch, Aberdar, a chladdwyd ef ar y dydd Gwener canlynol yn Cemetery Mountain Ash. Gweinyddwyd yn y tŷ ac ar lan y bedd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., yn gymhwysiadol i'r amgylchiad i dorf anarferol luosog. Yr oedd Edward Williams yn ddyn hynod garedig, parod bob amser i weini unrhyw gymmwynas neu i roddi llaw o gymhorth i'r sawl oeddynt yn sefyll mewn angen o hyny, ac oblegyd hyny, yn gystal ag amryw rinweddau da ereill a'i nodweddai, ni allwn synu fod iddo air da gan ei gydnabyddion. Mae wedi gadael ar ei ol berthynasau agos o weddw a thri o blant, heblaw ei anwyl fam, am yr hon y gofalai fel y gweddai i fab ofalu am ei fam. Mae y weddw a'r plant yn wylo yn dost ar ei ol, ond diau fod yr ergyd megys wedi myned yn nes at ei chalon hi a'i chlwyfo yn fwy nâ neb arall. Dan fendith y nefoedd y byddont oll yn ngwyneb yr amgylchiad sobr.—L.

Awst 28, yn 33 mlwydd oed, John Griffiths, Ysw., llawfeddyg, Llanbedr-Pont-Stephan. Ychydig ddiwrnodau cyn ei farwolaeth, daethai ef a'i deulu i Lwynygroes, Llanwnen—tŷ ei dad-yn-nghyfraith, gan obeithio y byddai ychydig gyfnewidiad yn lles iddo. Ond yn hyn fe 'i siomwyd, oblegyd nid hir y bu yno cyn i'w glefyd gymmeryd ffurf beryglus, ac er gwaethaf dyfais meddygon goreu y gymmydogaeth, brysiodd yn gyflym i'r eilfyd mawr. Gadawodd weddw ac unig blentyn i alaru ar ei ol. Claddwyd ei weddillion marwol y Llun canlynol yn mynwent Llanwnen, a chyflawnwyd y gwasanaeth gan y Parch. D. Morris, Periglor y Plwyf, cynnorthwyedig gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Gorphwysed ein cyfaill twymgalon mewn tangnefedd, a boed i'w weddw alarus, ei blentyn amddifad, a holl gylch y perthynasau, fwynhau etto lawer o wenau'r nefoedd. Nidei n ffyrdd ni yw ei ffyrdd Ef.

Medi 6, Evan Thomas, gof, o Gefncoedcymmer, yn 60 mlwydd oed. Genedigol o Landyssul oedd ei dad a'i fam, ac yno hefyd y ganwyd Evan, ond pan oedd tua dwy flwydd oed symmudodd y teulu i'r Cefn, lle bu ein cyfaill fyw fwy neu lai hyd ddydd ei farwolaeth. Anmhossibl oedd cwrdd â chyfaill mwy dihoced, neu â chymmydog mwy didramgwydd—yr oedd yn ddystaw, yn dawel, ac yn esmwyth o dan bob amgylchiad. Teimlir colled a chwithdod ar ei ol yn H.D.C. y Cefn, lle y bu yn aelod am flynyddau lawer. Dydd Mawrth canlynol claddwyd ei weddillion yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, pryd y gwasanwyd gan y gweinidog. Gadawodd ferch i alaru ei cholled ar ei ol, a gwir golled yw colli tad mwyn, caruaidd.

Medi 16, yn Cambrian Place, Caerfyrddin, Mr. Rees Rees, *photographer*, yn 65 mlwydd oed.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau.—Mrs. R., Penderyn; M.T., Llangors; E.J., Aberdar; J.J., do.; D.T., Treorky; D.E., Rhymney; D.P., St. Clears; D.C., Pencware; D.E., Troedyrhiw; J.D., Llanwnen; T.J., Alltplaca; D.J., Ceginan; S.D., Coedyparc; H.J., Glynneath; P.P., Rhydyparc; J.M., Cwmbach; D.J., Ciliau.

HEN "YMOFYNYDDION."

Mae gan y Golygydd rai cyfrolau y bydd yn dda ganddo eu gwaredu yn rhâd iawn. (1847—1865), (1873—1879). Dyma gyfle i lenorion ieuainc ac i gynnulleidfaoedd i gyflenwi llyfrgelloedd yr Ysgolion Sul. Peidier oedi. Swllt a grot y gyfrol yn rhâd trwy y *post.*

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

YR YMOFYNYDD.

D.S.—Yr ydym yn taer geisio gan gyfeillion Yr Ymofynydd i gymmeryd dan ystyriaeth ei sefyllfa. A ydyw i gael ei barhau ar ol y flwyddyn bresenol? Os felly, y mae yn angenrheidiol chwyddo a chadw i fyny ei gylchrediad.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynnelir y nesaf o'r uchod yn y Wig, ar ddyddiau Mercher ac Iau, Hydref 1af a'r 2il. Boreu dydd Iau, pregethir yn Saesneg gan y Parch. Dr. Vance Smith, ac yn Gymraeg, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Pwnc y Gynnadledd fydd, "Dyben Eglwys a'r ffordd oreu i sicrhau y dyben hwnw;" darllenir papyr arno gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Gobeithir y bydd i'r oll o'r gweinidogion roddi eu presenoldeb.

W. P.